## *Gweithdrefn Iechyd a Diogelwch*
## *Schools Health and Safety Procedure*

***Ysgol Tryfan***

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:**
***Signed on behalf of the Chair of Governors:***

**Dyddiad Cymeradwyo:** **Mawrth 2024**
***Date of Approval:***

**Dyddiad Adolygu:** **Mawrth 2027**
***Review Date:***

**Llywodraethwr dynodedig a chyfrifoldeb am iechyd a diogelwch:** **Mr Carl Mather**

**Cydlynydd iechyd a diogelwch yr ysgol:** **Mr Paul Harris**
**School's health and safety co-ordinator:**

## 1 Sgôp

Mae'r weithdrefn yma'n cefnogi Polisi Iechyd Diogelwch Llesiant Cyngor Gwynedd trwy amlinellu trefniadau lleol o fewn yr ysgol er cydymffurfiaeth a deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Dylai'r ddogfen felly gael ei darllen ar y cyd a'r Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles Corfforaethol ble fo cyfrifoldebau Rheolwyr (sy'n cynnwys Penaethiaid Ysgolion), staff a llywodraethwyr yn cael eu nodi.

Mae'r weithdrefn hon yn benodol ar gyfer yr ysgol, ac yn manylu ar y trefniadau lleol sydd mewn lle o fewn yr ysgol, tra fo'r Polisi Iechyd a Diogelwch yn un corfforaethol e.e. gall fod Pennaeth yr Ysgol wedi dirprwyo rhai tasgau a chyfrifoldebau i eraill o staff yr ysgol. Dylai fod y ddogfen hon ar gael ym mhob ysgol ac wedi ei theilwro yn benodol i adlewyrchu trefniadau'r Ysgol / Uned Addysgol.

## 2 Cyfrifoldebau

Yn ogystal â'r cyfrifoldebau sydd wedi eu nodi o dan Reolwyr Gwasanaeth a Rheolwyr Safle yn y Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, mae Pennaeth Ysgol hefyd yn gyfrifol am y canlynol:

- Casglu gwybodaeth a data gan y Cyngor ac o ffynonellau eraill am drefniadaeth ac arferion iechyd a diogelwch cyfredol i'w cyflwyno gerbron y Corff Llywodraethol gan adolygu'r sefyllfa yn wyneb y wybodaeth a drosglwyddir.

- Trefnu ymarferion monitro ac archwiliadau blynyddol, gan gyflwyno adroddiad ac argymhellion i'w hystyried gan y Corff Llywodraethol.

- Dirprwyo dyletswyddau penodol i aelodau penodol o staff ble bo'n briodol e.e. i asesu risgiau mewn maes / adran ble fo angen arbenigedd technegol e.e. gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg ac addysg gorfforol.

- Sefydlu trefn fel y gall staff adrodd ynghylch peryglon iechyd a diogelwch a hysbysu adrannau perthnasol, fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau y gweithredir ar y mater.

- Sicrhau bod digon o staff Cymorth Cyntaf wedi'u hyfforddi i gwrdd â'r rheolau a'r canllawiau a gymeradwywyd gan y Corff Llywodraethol. Dylai'r Cymhorthydd Cyntaf feddu a'r hyfforddiant diweddaraf ar adegau priodol a derbyn tystysgrifau o'r newydd. Person(au) Penodedig Cymorth Cyntaf yr Ysgol fyddai'n sicrhau bod holl flychau Cymorth Cyntaf yr ysgol wedi'u lleoli a'u cyflenwi'n briodol.

- Cynnwys eitem ar Iechyd a diogelwch ffurfiol ar raglen cyfarfodydd Y Corff Llywodraethol / Is-banel.

- Sicrhau bod cyfarpar ymladd tân yn ei le ac wedi eu cyflenwi'n briodol, a chyflawni ymarferion tân yn rheolaidd (o leiaf unwaith y tymor). Cwblhau'r Cynllun Rheoli Tân ar gyfer yr ysgol, a'i dynnu i sylw'r Corff Llywodraethol. Cydymffurfio â chynnwys y Polisi Diogelwch Tân Corfforaethol.

- Mynychu hyfforddiant perthnasol i Reolwyr Safle sy'n cynnwys hyfforddiant ar faterion iechyd a diogelwch rheolaethol mewn ysgolion.

- Cydlynu a chydgordio gyda unrhyw reolwr arall all fod yn rheoli staff sy'n gweithio o fewn yr ysgol yn ôl yr angen e.e. staff y gegin.

Ble fo cyfrifoldebau penodol wedi eu dirprwyo e.e. mae rhai Dirprwy Benaethiaid yn gweithredu fel cydlynydd iechyd a diogelwch mewn ysgolion uwchradd, dylid nodi isod yn union pa ddyletswyddau sydd wedi eu dirprwyo.

### 2.1 Athrawon a Staff Ategol

Yn ogystal a'r dyletswyddau sydd wedi eu nodi o dan gyfrifoldebau pob gweithiwr y Polisi Iechyd Diogelwch a Llesiant (cyfrifoldebau pob gweithiwr), mae athrawon a staff ategol yn gyfrifol am:

- Asesu risgiau wrth gynllunio, ac yn ystod gwersi
- Adrodd ar ddigwyddiadau o ymddygiad heriol o fewn eu dosbarth

### 2.2 Gwirfoddolwyr

Rhaid i unrhyw waith a ymgymerir gan wirfoddolwyr yn yr ysgol gydymffurfio â systemau gwaith diogel a ddynodir gan y Pennaeth a'r Llywodraethwyr. Petai unrhyw waith ymgymerir gan wirfoddolwyr yn effeithio adeilad yr ysgol - rhaid dilyn trefniadau y Cyngor a chysylltu gyda'r Gwasanaeth Eiddo o flaen llaw.

Yn unol â threfniadau diogelu plant, dylai gwirfoddolwyr ddilyn y drefn berthnasol i wirio eu haddasrwydd i weithio gyda phlant.

## 3 Gweithdrefnau

Bydd cyfrifoldeb ar holl staff yr ysgol i warchod diogelwch y disgyblion a hwy eu hunain ymhob gweithgaredd. Tynnir sylw yn benodol at y meysydd canlynol:

### 3.1 Ymweliadau Addysgol

- Mae Polisi Ymweliadau Addysgol yn gosod gweithdrefnau ar gyfer cynllunio, cymeradwyo a monitro ymweliadau ynghyd â rhoi canllawiau i'w dilyn yn ystod teithiau arferol, dros nos, tramor ac anturus.
- Yr ysgol i enwebu Cydlynydd Ymweliadau Addysgol (CYA) sydd mewn safle dylanwadol o fewn rheolaeth yr ysgol  neu yn uwch dîm rheoli'r ysgol. Rhaid i'r CYA fynychu hyfforddiant perthnasol ar gyfer y rôl, a defnyddio meddalwedd berthnasol i gofnodi'r ymweliadau. Y CYA hwn/hon fydd a chyfrifoldeb i ddilyn y canllawiau'r Polisi Ymweliadau Addysgol ar gyfer cymeradwyo teithiau.
- Mae angen i bob taith oddi ar dir yr ysgol dderbyn cymeradwyaeth y Pennaeth / Dirprwy / Pennaeth mewn Gofal (dileu fel sy'n briodol). Mae ymweliadau ymdrechgar, anarferol, anturus a thramor i gael eu cyflwyno gan Gydlynydd Ymweliadau Addysgol yr ysgol, ynghyd â derbyn cymeradwyaeth derfynol gan Ymgynghorydd Ymweliadau Addysg Gwynedd a Môn.
- Y CYA i sicrhau bod Asesiad Risg addas wedi ei gwneud ar gyfer bob ymweliad, a bydd caniatâd wedi ei dderbyn gan y rhieni/gwarcheidwaid y disgyblion.
- Sicrhau cydymffurfiad â pholisi bysiau mini Cyngor Gwynedd.

### 3.2 Dylunio a Thechnoleg

- Cedwir at Ganllawiau Dylunio a Thechnoleg yr ysgol.
- Sicrheir bod y disgyblion yn defnyddio offer addas, ac mewn dull cywir.

- Sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w ddefnyddio ac yn cael eu cynnal a'u cadw gan yr Ysgol ac yn cael eu archwilio'n rheolaidd.
- Ni ddefnyddir peiriannau gweithdy gan y disgyblion heb arolygiaeth fanwl gan yr athrawon.
- Sicrhau bod Asesiadau Risg yn cael eu cynnal ar weithgareddau ble adnabyddir risg yn unol â chanllawiau CLEAPSS.

Technoleg Bwyd/ Arlwyo:

- Cedwir at reolau hylendid bwyd a chanllawiau arferion da wrth baratoi bwyd yn yr ysgol.
- Ffurflen caniatâd blasu bwyd i'w chwblhau ar ddechrau blwyddyn i ganfod os oes gan ddisgyblion alergedd bwyd arbennig.

**3.3 Addysg Gorfforol**

- Cedwir at Ganllawiau Addysg Gorfforol yr ysgol.
- Cedwir at y Canllawiau 'Safe Practice in Physical Education, School Sport and Physical Activity' sydd wedi ei gyhoeddi gan yr Association for Physical Education (2016) mewn gweithgareddau addysg gorfforol.
- Sicrheir bod y disgyblion yn gwisgo dillad / esgidiau addas ar gyfer gweithgareddau.
- Sicrheir bod offer yn cael eu cadw mewn cyflwr da ac yn ddiogel cyn cychwyn unrhyw weithgaredd.
- Sicrheir na fydd disgyblion yn gwneud symudiadau all eu peryglu hwy neu rywun arall;

**3.4 Gwyddoniaeth**

- Cedwir at Ganllawiau Gwyddoniaeth yr ysgol.
- Defnyddir offer amddiffynnol addas i gynnal waith arbrofol ac ymchwiliadau os bydd perygl o niwed.
- Sicrhau bod Asesiad Risg yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau CLEAPSS.
- sicrhau fod trefniadau caeth mewn lle ble fo deunyddiaeth ymbelydredd yn cael eu cadw at bwrpas gwersi gwyddonol, a fod aelod penodol o staff wedi ei apwyntio fel Goruchwyliwr Ffynonellau Ymbelydredd (Radiation Protection Supervisor neu RPS yn fyr).

  RPS yr ysgol yw:_____________________________

**3.5 Profiad Gwaith**

- Yr ysgol i gymryd camau rhesymol i wirio bod y darparwyr profiad gwaith yn rheoli unrhyw risgiau sylweddol yn effeithiol.
- Petai'r profiad gwaith yn cael ei drefnu gan yr ysgol, ac yn golygu bod disgybl yn mynd ar ymweliad dramor neu ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ymdrechgar/anturus, yna dylid dilyn gweithdrefnau ymweliadau addysgol (gweler rhan 3.1)

**3.6 Offer Trydanol**

- Mae'r offer trydanol yn cael prawf diogelwch (gweledol / ffurfiol) yn unol â Chanllawiau Corfforaethol y Cyngor.
- Os oes amheuaeth am ddiogelwch yr offer ar unrhyw adeg, nis defnyddir.

**3.7 Anghenion Meddygol**

- Cedwir at Bolisi Anghenion Meddygol mewn Ysgolion (Cyngor Gwynedd), Canllawiau Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (2010) a'r Polisi Gofal Iechyd Sirol.

### 3.8 Cymorth Cyntaf

- Dilyn y canllawiau roddir yn y ddogfen Canllawiau Cymorth Cyntaf
- Sicrhau bod darpariaeth cymorth cyntaf digonol yn yr ysgol, a bod nifer digonol o staff gyda chymhwyster Cymorth Cyntaf ar gael.
- Yn dilyn anaf oherwydd damwain bydd angen cwblhau ffurflen HS11.

*Dylid nodi unrhyw drefniadau iechyd a diogelwch penodol o fewn yr ysgol sydd ddim wedi eu manylu yn barod o fewn y blwch isod e.e. trefniadau goruchwyliaeth amser cinio / glanhau / staff cegin.*